

## 16 - Abergwyngregyn i Fangor:- 12.33 milltir (19.84km)

Os nad ydych yn ymweld â'r pentref trowch i'r chwith cyn y bont i ddilyn Llwybr Gogledd Cymru a cherddwch i fyny'r ffordd i'r maes parcio. Yn union cyn cyrraedd y maes parcio cymerwch y llwybr ar y dde gyda'r arwydd Rhaeadrau ac ewch dros y bont. Dilynwch y llwybr yma am 1.25 milltir (2.1 km) at y rhaeadrau. Mae Llwybr Gogledd Cymru'n mynd heibio rhaeadr arall ac yna'n dringo'n araf o amgylch ochr y bryn. Yn fuan wedi i chi basio o dan y llinellau trydan byddwch yn cyrraedd sedd sydd â golygfeydd eang dros Ynys Môn, y Gogarth a thu hwnt i Ogledd Orllewin Lloegr.

Daliwch ymlaen i ddilyn Llwybr Gogledd Cymru i fynd o dan y llinellau trydan am yr ail waith – oddeutu 2 km. Ar ôl pasio o dan y trydydd o'r llinellau trydan mae'r llwybr yn awr yn croesi nifer o nentydd a byddwch yn y pen draw yn cyrraedd giât mewn ffens a wal. Parhewch ar hyd y brif lwybr sy'n dirwyn a throelli nes byddwch yn pasio man coediog ar eich ochr dde (Nant Heilyn). Ar ôl 300 m arall, bydd y trac yn eich arwain allan i lôn.

Trowch i'r chwith a cherdded ar hyd y lôn. Anwybyddwch y ffordd sy'n mynd i lawr yr allt ar y dde. Pan fyddwch yn cyrraedd y llinell drydan, cymerwch y llwybr troed i'r dde tuag at Blas Uchaf. Ewch drwy'r giât mochyn a heibio'r fferm. Croeswch y cae nesaf ar hyd trac gwyrdd tuag at y coed.

Wrth y peilon a'r eithin trowch i'r chwith ar hyd llwybr troed, gyda'r wal ar eich ochr dde, ac anelu am beilon arall. Croeswch y nant i fynd o amgylch y lan at y trac. Trowch i'r dde a cherdded at y giât nesaf wrth drac. Croeswch drosodd at weddillion camfa garreg a cherdded gyda'r wal ar eich ochr dde. Yn union cyn y tŷ nesaf ewch i'r chwith dros gamfa. Cymerwch y gamfa nesaf ar eich ochr dde i fynd ar ffordd fynediad. Trowch i'r dde ar ei hyd tuag at y lôn. Ewch i'r chwith i fyny'r lôn nes cyrhaeddwch gamfa yn y wal ar eich ochr dde. Rydych yn dal i ddilyn Llwybr Gogledd Cymru a dylech fod yn dal i chwilio am eu marcwyr nhw yn ogystal â marcwyr Taith y Pererin.

Parhewch ar draws y cae gyda'r wal ar eich ochr dde. Pan gyrhaeddwch giât yn y wal gerllaw hen adeiladau, trowch i'r chwith gan ddilyn y trac i fyny i gae sydd wedi'i amgylchynu ag eithin. Trowch i'r dde a chadw'r eithin ar eich ochr dde, dewch o hyd i llwybr drwy'r eithin a fydd yn arwain at gamfa ger nant fechan. Croeswch hon i fynd i gae arall ac, yn y pen draw, byddwch yn cyrraedd lôn.

Yma trowch i'r dde ar hyd y lôn am oddeutu 0.6 milltir/1km nes byddwch yn gweld troad i'r chwith at Blas Cochwillan. Gan fynd i'r dde o amgylch yr hen gartref gwych yma, ewch ar hyd y trac tuag at y coed. Trowch i'r dde drwy'r giât mochyn a cherdded ar hyd ymyl y goedwig. Dilynwch y llwybr i lawr nes byddwch yn y pen draw'n gweld yr afon ar eich ochr chwith, cyn cyrraedd y felin ddŵr. Trowch i'r chwith wrth y felin a dilynwch y llwybr ar draws yr afon gan ddod allan i drac/lôn.

Ewch i'r dde yn y fan yma i fynd o dan yr A55. Mae'r ffordd fynediad yn gwyro i'r chwith ac yna i'r dde gan droi'n fetlin. Dilynwch hon gan basio maes y clwb rygbi ar eich ochr chwith a pharhau'n syth i lawr y lôn. Trowch i'r chwith ar y troad cyntaf. Yma byddwch yn ymuno â Llwybr Arfordir Cymru. Ewch i'r dde drwy'r llwyni i ddilyn y llwybr at arhosfan fysiau ar ffordd fawr. Croeswch y ffordd at llwybr troed sy'n rhedeg gerllaw siafft awyr y rheilffordd sy'n edrych fel twred castell bychan. Mae'r llwybr yma'n mynd at lôn arall y byddwch yn ei chroesi at llwybr arall sy'n eich cymryd i lawr wrth ochr parc diwydiannol. Pan fyddwch yn cyrraedd ffordd, trowch i'r chwith ac ewch i lawr at ben y ffordd ac yna drwy rwystrau. Trowch i'r dde i ymuno â'r hen drac rheilffordd i mewn i Borth Penrhyn.

Trowch i'r chwith a dilyn Llwybr Arfordir Cymru dros y bont ac i fyny'r allt i ffordd yr A5. Croeswch hon yn ofalus a mynd drwy'r bolardiau i Ffordd Penybryn. Dilynwch y ffordd o dan bont garreg ac ar y pen trowch i'r chwith i mewn i'r Stryd Fawr. Cerddwch i lawr y stryd yr holl ffordd i Ganol Dinas Bangor ac at yr eglwys gadeiriol.